
Rhifyn 11 gwanwyn 2012

# Geoparc y Fforest Fawr newyddion

FFOREST FAWR GEOPARK



## Yn y rhifyn hwn

**Y prosiectau diweddaraf ym Mro'r Sgydau gan gynnwys:**

**Dynion yn gweithio uwchben**

**Canu'n iach i'r mwd**

**Cerddwch fel hyn!**



**Bwa Maen: molawd i'n ffawtiau**



## Camu i'r cyfeiriad iawn!

**Mae Bro'r Sgydau'n cynnal peth wmbredd o dreftadaeth a bioamrywiaeth gyfoethog. Mae pwysigrwydd yr ardal hon yn cael ei gydnabod gan yr holl ddynodiadau sy'n cael eu pentyrru arni.**

Gall frolio dau Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SODdGA), un Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), Safleoedd Adolygu Cadwraeth Ddaearegol niferus, digon o Henebion Cofrestredig (HC) ac adeiladau rhestredig. Ar ben hynny, mae'n gorwedd o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ogystal â Geoparc y Fforest Fawr. Mae'r cyfuniad yma o ddynodiadau'n adlewyrchu nid yn unig pwysigrwydd rhyngwladol yr ardal hon ond hefyd yn golygu bod rhannau helaeth o'r ardal hon yn cael eu gwarchod o dan y gyfraith genedlaethol a rhyngwladol.


Mae helaethrwydd harddwch a diddordeb yr ardal hon gyda'i cheunentydd coediog a rhu ei rhaeadrau'n anochel yn denu nifer enfawr o ymwelwyr bob blwyddyn. Yn 2011 yn unig, gwelwyd oddeutu 166,000 o ymwelwyr yn yr ardal – y nifer uchaf ag unrhyw ran unigol o'r Parc Cenedlaethol. Mae pobl yn dod yma nid yn unig i gerdded yn yr ardal, rhyfeddu at y sgydau ac ymdrwytho yn ei harddwch naturiol ond hefyd i ogofa, dringo a cherdded ceunentydd.



Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi tynnu sylw at y ffaith fod cyflwr llawer o'r ACA a'r SODdGA yn anffafriol o ganlyniad i'r pwysau hamdden trwm yma, gan olygu bod angen i Gomisiwn Coedwigaeth ▸

Cymru a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, fel y prif dirfeddianwyr, ddangos eu bod yn cymryd camau i atal y lle rhag dirywio ymhellach, yn ogystal ag adfer y safleoedd dynodedig i 'gyflwr ffafriol'. O ganlyniad, ryw ddwy flynedd yn ôl, cyhoeddwyd Cynllun Rheoli Bro'r Sgydau ynghyd â rhaglen waith bum mlynedd sydd bellach yn cychwyn ar ei thrydedd flwyddyn. Mae prif nodau'r cynllun rheoli fel a ganlyn:

- Darparu a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer hamdden mwy diogel a phrofiad cadarnhaol i ymwelwyr sy'n meithrin dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r safleoedd ACA a SODdGA, yr Henebion Cofrestredig a'r ardal o'u cwmpas.
- Cynyddu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r ardal, ei hagweddau sensitif a'i defnydd.
- Cadw ac adfer yr ACA/SODdGA/Henebion Cofrestredig yn ogystal â chynefinoedd a safleoedd gwerthfawr eraill ym Mro'r Sgydau a sicrhau bod amcanion y safleoedd ACA a SODdGA yn cael eu cefnogi ym mhob prosiect.



# Y Prosiectau Diweddaraf

**Bu'r chwe mis diwethaf yn gyfnod prysur ym Mro'r Sgydau gyda rhai prosiectau mawr ar y gweill neu wedi'u cwblhau.**



Y tîm rhaffau arbenigol yn archwilio'r clogwyni uwchben Porth yr Ogof yng Nghwm Porth

## Dynion yn gweithio uwchben

**Archwilio'r clogwyni a chlirio cerrig rhydd yng Nghwm Porth a Sgwd Clun-Gwyn**

Archwilir y clogwyni'n flynyddol yng Nghwm Porth a Sgwd Clun-Gwyn gan eu bod yn ardaloedd prysur o ran ymwelwyr, a gwyddom fod cwympiadau cerrig wedi digwydd oherwydd natur y tir. Yn ystod yr archwiliad clogwyni diwethaf, gwthiwyd ychydig o gerrig rhydd oddi ar y clogwyni yng Nghwm Porth gan y tîm arbenigol sy'n mynd at y graig.

## Prosiect Llwybr Elidir

Dechreuodd y gwaith ym mis Rhagfyr ar welliannau mawr i Lwybr Elidir rhwng Pontneddfechan a Sgwd Gwladus. Prosiect ar y cyd yw hwn rhwng yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a CBS Castell-nedd Port Talbot. Mae meinciau sliperi newydd wedi cymryd lle gweddillion yr hen rai cerrig. Mae torri ffosydd, draenio a ffensio o gwmpas y llwybrau a mynedfeydd i hen fwyngloddiau wedi cael eu gorffen ac mae cannoedd o fetrau o lwybrau wedi cael wyneb newydd. Mae'r gwaith i fod i gael ei gwblhau erbyn mis Ebrill 2012.



Gwirfoddolwyr diwyd yn symud y 10 tunnell o ro ar gyfer y gwaith arwynebu.

## Un o arwyddion yr oes

Ym mis Rhagfyr cwblhawyd y cyfnod olaf o uwchraddio arwyddion i gerddwyr yn yr ardal. Mae'r holl arwyddion newydd bellach yn cynnwys manylion y cyrchfan a'r amser mae'n ei gymryd ar gyfartaledd i'w gyrraedd ar droed.



## Arolwg ymwelwyr 2011

Bu gwirfoddolwyr a staff yn helpu i gynnal yr arolwg ymwelwyr eilflwydd diweddaraf i fesur ansawdd profiad yr ymwelydd yn yr ardal. Datgelodd ostyngiad parhaus a sylweddol yn nifer yr ymwelwyr sy'n mynd ar goll er 2007 o ganlyniad i'r gwelliannau i arwyddion a chynnydd yn nifer yr ymwelwyr sy'n rhoi sgôr uchel iawn a chadarnhaol i'w profiad, gyda llawer o bobl yn sôn am y cyfeirbwyntio effeithiol a'r llwybrau da. Os hoffech gopi o adroddiad yr arolwg, e-bostiwch: *helen.pye@breconbeacons.org*

## Ymlaen gan bwyll

**Arwyneb gwrthlithro newydd i bont y Gwaith Powdr**

Ychydig flynyddoedd yn ôl gosodwyd pont newydd gennym ar draws afon Mellte ger y Gwaith Powdr. Cynlluniwyd y bont i adlewyrchu gorffennol diwydiannol cyfoethog yr ardal. Aeth y bont i'w lle'n iawn ond roedd yna broblemau gan fod decin y bont yn llithrig pan oedd yn wlyb neu'n rhewllyd. Gosodwyd llen wrthlithro ar hyd dec y bont i liniaru'r broblem hon gyda chymorth tîm mynediad arbenigol â rhaffau.





Y tîm mynediad arbenigol â rhaffau'n cynorthwyo wrth osod y llen wrthlithro; a'r canlyniad gorffenedig.

## Cerddwch fel hyn!

**Cydweithio â darparwyr awyr agored i ddatblygu cod cerdded ceunentydd ar gyfer afon Mellte**

Yn dilyn llwyddiant y prosiect peilot i gyflwyno cod ymddygiad cerdded ceunentydd at ddefnydd grwpiau awyr agored afon Sychryd, rydym bellach wedi cychwyn ar dasg sydd ychydig yn fwy cymhleth, sef datblygu cod ymddygiad cerdded ceunentydd ar gyfer afon Mellte. Mae ceunant afon Mellte yn fwy caëedig felly mae llai o hyblygrwydd o ran osgoi ardaloedd mwy sensitif. Mae hefyd yn fwy sensitif yn nhermau cymunedau'r isblanhigion prin y mae'n eu cynnal.

Yn yr hydref y llynedd bu grŵp o gynrychiolwyr o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Grŵp Darparwyr Awyr Agored De Cymru (GDGAADC) yn treulio diwrnod yng ngheunant afon Mellte yn nodi'r ffordd y defnyddir y ceunant gan grwpiau awyr agored at gerdded ceunentydd. Mae'r wybodaeth fanwl hon wedi'i throsglwyddo i fap a ddefnyddir gan arbenigwr isblanhigion sydd i arolygu'r safle yn y gwanwyn. Mewn geiriau syml, bydd yn darparu arweiniad ynglŷn â pha ardaloedd y dylai cerddwyr y ceunant eu hosgoi ac yn sgil hyn, bydd map o'r ardal ar gyfer cerddwyr ceunentydd yn cael ei ddatblygu i ddangos llwybrau mynediad y cytunir arnynt.



## Canu'n iach i'r mwd

**Llwybrau pren Bronwydd**

Ceir llwybr troed i'r gogledd o Fro'r Sgydau sydd, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi dod yn boblogaidd iawn gyda grwpiau Gwobr Dug Caeredin gan ei fod yn ffurfio dolen ddefnyddiol rhwng Sgwd Gwladus a Sarn Helen. Fodd bynnag, mae darn problemus islaw fferm Bronwydd sydd ar hyd y blynyddoedd wedi bod yn fwdlyd iawn ac sydd wedi tyfu'n wyllt. Mae gwelliannau mawr wedi cael eu gwneud i'r rhan hon o'r llwybr gyda chymorth gwirfoddolwyr, yn bennaf drwy osod llwybrau pren. Erbyn hyn mae'r llwybr wedi gwella'n sylweddol er bod ychydig ddyddiau o waith i'w wneud o hyd nes iddo gael ei orffen.



Gwirfoddolwyr yn helpu i osod llwybrau pren ar hyd y 'llwybr mwyaf mwdlyd yn y Parc Cenedlaethol'

## Mynediad haws

**Gwelliannau o gwmpas Sgwd yr Eira**

Os ydych yn ymweld â'r sgwd hon, mae bellach llai o berygl i chi syrthio wrth fynd ati. Bu rhai gwelliannau sylweddol i'r llwybrau i lawr at y sgwd enwog hon yn 2011. Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi cwblhau'r gwaith ar y llwybr i lawr ochr serth ddeheuol y ceunant gan greu llwybr newydd a gwell i gymryd lle'r hen risiau. Mae'r canllawiau i lawr at y sgwd ar yr ochr ogleddol hefyd wedi'u trwsio neu mae rhai newydd wedi'u gosod yn ôl yr angen.

**Darganfyddwch fwy**


Os hoffech wybod y diweddaraf o ran beth sy'n digwydd yn yr ardal gallwch fy nilyn ar drydar. Os am fy nilyn (Helen Pye) bydd angen cyfrif trydar arnoch a fy enw defnyddiwr yw *@BBParkWarden*

Gallwch hefyd gael gwybod mwy am yr ardal ar ein gwefan: *http://www.breconbeacons.org/environment/waterfall-country*


## Cynllun Warden Gwirfoddol Bro'r Sgydau

Yn 2011 buom yn peilotio cynllun gwirfoddolwyr ar gyfer meysydd parcio. Roedd hyn yn golygu rhoi gwirfoddolwr yng Ngwaun Hepste dros y penwythnosau, i ddosbarthu gwybodaeth a rhoi cyngor i ymwelwyr. Rydym yn gobeithio ehangu'r cynllun hwn eleni i gynyddu nifer y gwirfoddolwyr sydd gennym ac i gynnwys mwy o feysydd parcio yn yr ardal. Os oes gennych ddiddordeb mewn gwirfoddoli yn y cynllun hwn, cysylltwch â *Helen.pye@breconbeacons.org*






# Bwa Maen
## - molawd i'n ffawtiau!




**Wrth feddwl am ffawtiau daearegol, un enw sy'n tueddu i godi ... San Andreas, Califfornia. Ond a wyddech chi fod gennym ein ffawtiau ein hunain yma yn y Geoparc, gydag un ohonynt yn achosi un o'r daeargrynfeydd mwyaf dinistriol i daro Gwledydd Prydain yn yr ugeinfed ganrif?**

Yn cael ei hadnabod fel Cylchfa Ffawtio-plygu Cwm Nedd, llinell ffawtiau, toriadau, gwythiennau a phlygion yw hon, sy'n ymestyn o Fae Abertawe i Henffordd. Mae'r gylchfa wedi achosi llawer o nodweddion pwysig yn y dirwedd ar ei hyd, gan gynnwys Cwm Nedd a Moel Penderyn ac roedd yn gyfrifol am ddaeargryn Abertawe 1906. Ond wrth waelod Sgydau Sychryd y mae'r amlygiad creigiau gorau ar hyd Cylchfa Ffawtio-plygu Cwm Nedd, wyneb aruchel y graig blyg a thoredig a adwaenir fel Bwa Maen.

Yn sgil clirio llystyfiant oddi ar Fwa Maen gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) y llynedd rydym wedi bod yn arwain prosiect gyda'n partneriaid Comisiwn Coedwigaeth Cymru, CCGC a GDGAADC i greu darluniau a thestun i ymddangos ar banel dehongli newydd. Mae'r panel yn esbonio sut cafodd Bwa Maen ei ffurfio a pherthnasedd Cylchfa Ffawtio-plygu Cwm Nedd gan ddangos sut rydym yn rheoli'r ardal i ymwelwyr. Rydym wedi bod mewn cysylltiad â GDGAADC a'r gobaith yw y bydd y panel newydd yn cynorthwyo arweinwyr gweithgareddau a bodloni chwilfrydedd eu grwpiau am y nodweddion maent yn dod ar eu traws wrth gerdded y ceunentydd.

Am unrhyw wybodaeth bellach ar y prosiect cysylltwch ag Alan Bowring, Swyddog y Geoparc neu Suzanna Jones, Swyddog Dehongli ar 01874 624437




# Ein Partneriaid yn y Rhwydwaith Geoparciau

Fel y gŵyr llawer o'n darllenwyr, un o deulu o Geoparciau ar draws Ewrop yw Geoparc y Fforest Fawr. Ar ddechrau 2012 roedd 48 o ardaloedd arbennig yn y grŵp hwn ar draws cyfandir Ewrop o Wlad yr Iâ i Greta. Edrychwch ar www.europeangeoparks.org am fwy o wybodaeth am bob un ohonynt.

Mae'r rhai a nodir gyda * yn drawsgenedlaethol, h.y., maent yn ymestyn ar draws mwy nag un wlad. Mae'r rhifau'n cyfeirio at y lleoliadau â seren ar y map o Ewrop.

**Awstria** Styrian Eisenwurzen (11)
**Croatia** Papuk (28)
**Ffrainc** Bauges (46), Parc Naturel Regional de Luberon (14), Reserve Naturelle Geologique de Haute Provence (1)
**Gweriniaeth Iwerddon** Burren a Chlogwyni Moher (44), Geoparc yr Arfordir Copr (7), Ogofâu Marble Arch (8)*
**Gwlad Groeg** Chelmos-Vouraikos (34), Fforest Betraidd Lesvos (3), Psiloritis (5), Vikos-Aoos (41)
**Gwlad Pwyl** Muskau Arch* (42)
**Gwlad yr Iâ** Katla (45)
**Hwngari** Novohrad – Nograd* (35)
**Norwy** Gea Norvegica (26), Magma (36)
**Portiwgal** Arouca (32), Naturtejo (23)
**Rwmania** Deinosoriaid Rhanbarth Hateg (18)
**Sbaen** Arfordir Gwlad y Basg (37), Cabo de Gata-Nijar (22), Parc Naturiol Sierra Norte de Sevilla (43), Parque Cultural del Maestrazgo (4), Sierras Subbeticas (24), Sobrarbe (25), Villuercaas-Ibores-Jara (48)
**Slofacia** Novohrad – Nograd* (35)
**Y DU** AHNE Gogledd y Penwynion (13), GeoMôn (Ynys Môn) (31), Gogledd-orllewin Ucheldiroedd yr Alban (15), Ogofâu Marble Arch (8)*, Rifiera Lloegr (29), Shetland (33), Y Fforest Fawr (20),
**Y Ffindir** Rokua (39)
**Yr Almaen** Geo-Naturpark Bergstrasse – Odenwald (12), Harz – Braunschweiger Land – Ostfalen (17), Muskau Arch (42)*, Schwabian Albs (16), Terra.Vita (6), Vulkaneifel (2)
**Yr Eidal** Adamello-Brenta (30), Beigua (19), Madonie (9), Parc Mwyngloddio Daearegol Sardinia (27), Parc Mwyngloddio Twsgani (40), Parco Nazionale del Cilento e Vallo di Diano (38), Rocca di Cerere (10), Yr Alpau Apuan (47),
**Y Weriniaeth Tsiec** Paradwys Bohemia (21)

FFOREST FAWR GEOPARK

European Geoparks

GLOBAL GEOPARKS NETWORK

CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD

BGS British Geological Survey NATURAL ENVIRONMENT RESEARCH COUNCIL

PARC CENEDLAETHOL **Bannau Brycheiniog**
Lle i enaid gael llonydd


**Plas y Ffynnon, Ffordd Cambria, Aberhonddu, Powys LD3 7HP**
**Ffôn: 01874 624427 Ffacs: 01874 622574**
**E-bost: enquiries@breconbeacons.org**
**www.breconbeacons.org**